



Cyfarfod

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 21AIN MAWRTH, 2023

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol – Zoom

I gael mynediad cyhoeddus cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

Rhodri Jones

01286 679256

rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru

(DOSBARTHUYD Dydd Llun, 13 Mawrth 2023)

AELODAETH:

Cyngor Gwynedd:

John Pughe
Anne Lloyd-Jones
Dewi Owen

Aelod Lleol Morfa Tywyn
Aelod Lleol Gorllewlin Tywyn
Aelod Lleol Aberdyfi

Aelodau Cyfetholedig:

Joch Cooper
David Williams
Huw Evans
Nigel Willis
Desmond George
Al Crisp
Guy Shaw

RNLI Aberdyfi
Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi
Aelod o Gymdeithas Pysgodfeydd Bae Ceredigion
Aelod o Glwb Cychod Aberdyfi
Aelod o Glwb Hwyllo Dyfi
Outward Bound Trust Wales
Clwb Rhwyfo Aberdyfi

Sylwedyddion:

Nia Wyn Jeffreys
Gwilym Jones

Aelod Cabinet Datblygu'r Economi
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw datganaidau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Ystyried unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2022 fel rhai cywir.

5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

9 - 14

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

6. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi ar 17 Hydref 2023.

Eitem 4

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI, 25 HYDREF 2022

Presenoldeb:

Cynghorwyr Gwynedd: Y Cynghorydd Robert Dewi Owen, Y Cynghorydd John Pughe.

Aelodau Cyfetholedig: Josh Cooper (RNLI Aberdyfi), David Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Desmond George (Aelod o Glwb Hwyllo Dyfi), Al Crisp (Outward Bound Trust Wales), Guy Shaw (Clwb Rhwyfo Aberdyfi), Cynghorydd Bob Tyrrell (Cyngor Cymuned Aberdyfi) a'r Cynghorydd Nia Jeffries (Arweinydd Portffolio Economi a Chymuned a Deilydd Dyletswydd Côd Diogelwch Harbyrau).

Swyddogion yn bresennol: Llyr Beaumont Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Barry Davies (Rheolwr Morwrol), Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau) Oli Simmons (Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

1. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Dewi Owen yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2022/23.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd John Pughe yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2022/23.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones ac William Arthur Stockford (Harbwrfeistr Aberdyfi).

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r cyfarfod hwn a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2022, fel rhai cywir.

7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Cyflwynwyd yr adroddiadau isod, a gwahoddwyd yr Aelodau i gynnig sylwadau am eu cynnwys a gofyn cwestiynau.

Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau yn rhoi diweddariad cryno i'r pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben Mawrth 2023.

- Atgoffwyd yr aelodau fod cylch gorchwyl pwyllgorau'r harbwr wedi cael ei greu o dan Adran 102 Deddf Llywodraeth Leol 1972 a bod Cabinet y Cyngor yn cadarnhau'r aelodaeth.
- Eglurwyd fod Aelod Cabinet Economi a Chymuned yn cael gwahoddiad i fynychu'r cyfarfodydd er mwyn trafod materion pwysig gyda'r aelodau, cyn adrodd yn ôl i'r Cabinet ble fydd angen.
- Datganwyd fod lleihad yn y nifer o gychod ar angorfeydd yr harbwr. Mae hyn yn achosi pryder gan fod gostyngiad o tua 30% wedi bod yn y ffigyrau hyn yn y blynyddoedd diwethaf, Er hyn, cadarnhawyd fod gwaith yn cael ei wneud er mwyn hysbysebu'r angorfeydd er mwyn cynyddu'r nifer o ddefnyddwyr unwaith eto.
- Pwysleisiwyd fod yr harbwr dal i fod yn brysur iawn. Fe welir tystiolaeth o hyn yn y ffaith fod nifer uchel iawn o bobl wedi cofrestru i gadw eu cychod ar yr harbwr. Nodwyd hefyd fod defnydd cyffredinol o gychod yn uchel iawn. Er bod y ffigyrau wedi lleihau ychydig, mae'r defnydd o'r harbwr yn uchel iawn o'i gymharu gyda harbyrau eraill y sir.
- Cadarnhawyd bod cyfarfod herio perfformiad wedi cael ei gynnal ar 21ain Hydref 2022.
- Mynegwyd diolchiadau i bawb o fewn y Clwb Hwyllo, Outward Bound, y Clwb Rhwyfo a'r Bad Achub am gydweithio mor effeithiol gyda'r harbwr yn ystod y flwyddyn.
- Canmolwyd y cwmni sydd wedi bod yn brysur yn ddiweddar yn gwneud gwaith adeiladu o gwmpas yr harbwr drwy adnewyddu wal y cei. Roedd aelodau yn falch iawn fod grisiau pwrpasol yn cael ei ymgorffori fewn i wal y cei ac y bydd y grisiau hyn yn defnyddiol er mwyn bod o gymorth i'r rhai fydd yn ceisio mynediad at ei cychod wrth ymweld ac Aberdyfi.
 - Nodwyd bod un cornel o adeilad yr harbwr yn disgyn 10mm ac mae gwaith yn cael ei wneud er mwyn sicrhau fod strwythur yr adeilad yn parhau i fod yn gadarn
- Holiwyd am leoliad cywir y grisiau. Yn wreiddiol, credwyd bod y ddau set o risiau yn mynd i'r lanfa er mwyn cynorthwyo'r cychod. Bellach mae un set o'r grisiau ar y lanfa ger swyddfa'r harbwr ac un arall o flaen y Clwb Hwyllo.
 - Cadarnhawyd fod y grisiau yn cael eu rhannu ar gyfer y defnydd gorau i'r holl ddefnyddwyr cyn decaf â phosibl. Bydd cynllun y gwaith adeiladu yn cael ei rannu gyda'r aelodau fel rhan o grŵp ffocws er mwyn iddynt allu gweld sut bydd yr harbwr yn edrych yn dilyn yr holl waith adeiladu sy'n mynd yn ei flaen ar hyn o bryd.

Côd Diogelwch Morol Phorthladdoedd

- Manylwyd fod yr harbwr wedi cymryd rhan mewn dau asesiad diweddar gan Wylwyr y Glannau. Mae'r canlyniadau o'r asesiadau hynny yn dangos fod yr harbwr yn cydymffurfio â'r côd.
- Cadarnhawyd bod holl asesiadau risg wedi cael eu cwblhau ac yn cael ei ail asesu yn rheolaidd er sicrhau ei bod yn addas ar gyfer y pwrpas.
- Datganwyd bod digwyddiad wedi bod dros yr haf ble roedd dau gwch wedi gwrthdaro a'i gilydd, ond nid oedd neb wedi cael eu hanafu ac felly nid oedd rhaid gwneud ymchwiliad pellach. Mae'r Awdurdod Harbwr wedi adrodd ar y digwyddiad i MAIB (Marine Accident Investigation Branch) fel rhan o adroddiad digwyliedig.

- Adroddwyd bod canlyniadau cadarnhaol iawn wedi cyrraedd yn dilyn archwiliad gan Dŷ'r Drindod, sef awdurdod goleudy cenedlaethol. Bu cadarnhad o fewn yr archwiliad fod y cynorthwyon mordwyo wedi aros yn y man cywir ar ôl eu lleoli.
- Mynegwyd pryder am y defnydd o fadau dŵr personol (jet ski) yn yr ardal, gan eu bod yn gallu bod yn beryglus i ddefnyddwyr eraill y môr.
 - Cadarnhawyd bod Cyngor Gwynedd wedi cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Ceredigion er mwyn gweld os ydynt yn awyddus i fabwysiadu system o gofrestru badau dŵr fel sydd wedi bod yn llwyddiannus yng Ngwynedd.
 - Pwysleisiwyd byddai swyddogion yn cysylltu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Ceredigion unwaith eto er mwyn eu annog i fabwysiadu'r system hon. Nodwyd gan yr Arweinydd Portffolio Economi a Cymuned a Deilydd Dyletswydd Côt Diogelwch Harbyrau ei bod yn awyddus i gysylltu gyda'r awdurdodau hyn er mwyn gwella'r system.
 - Cydnabuwyd bod y broblem yma hefyd yn berthnasol i bobl sy'n badl fyrrdio ond pwysleisiwyd fod gwaith yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod arwyddion diogelwch yn cael eu gwella er mwyn lleihau'r risg o niwed.

Materion Staffio

- Diolchwyd i'r holl staff am ei ymrwymiad at waith yr harbwr a thraethau cyfagos dros y cyfnod diwethaf a chadarnhawyd na rhagwelir bydd lleihad yn nifer o aelodau staff yn y dyfodol agos.
- Datganwyd fod y traeth wedi cael cyfnod prysur iawn dros yr haf ac mae'r wardeniaid wedi bod yn cwblhau eu gwaith yn effeithiol iawn. Pe bydd yn bosib, bydd ystyriaeth yn cael ei roi i ymestyn eu tymor cyflogaeth y tymor nesaf ac edrych ar y cyfleusterau er mwyn sicrhau nad oes rhaid i unrhyw un weithio ar eu pen eu hunain.
- Mynegwyd bod y wardeniaid traeth angen caban gwell na'r un sydd ar y safle yn bresennol, gan nad yw'n addas.
 - Cadarnhawyd fod y broblem yma yn cael ei ddelio gydag o dan gynlluniau gwelliannau traethau os bydd digon o gyllideb. Mae datblygiadau eraill hefyd yn cael ei wneud ar y traeth megis gwella'r toiledau cyhoeddus.
- Trafodwyd y broblem barhaus o gronni tywod sy'n digwydd ar y traeth. Byddai'n syniad i gael datrysiad o sut i atal y tywod rhag cael ei chwythu i'r pentref ac ar draws llithrfa'r bad achub. Pryderwyd bydd y tywod yn mynd allan o'r traeth ac yn gorchuddio'r maes parcio, gan greu costau ychwanegol i'r Cyngor yn y blynyddoedd nesaf os na fydd datrysiad.
 - Cydnabuwyd bod ardal Conwy wedi cael llwyddiant yn ddiweddar wrth fewnosod pwmp yn yr ardal i helpu atal y broblem hon.
 - Pwysleisiwyd bod difrifoldeb y broblem yn wybyddus i bawb ac mae sawl opsiwn yn cael ei drafod er mwyn ceisio datrys y broblem yma yn effeithiol ac yn barhaol.
 - Cytunwyd bydd cyfarfod rhwng defnyddwyr yr harbwr yn fuan er mwyn trafod y mater hwn ymhellach ac i rannu syniadau.

Materion Ariannol

- Adroddwyd bod gorwariant wedi bod mewn rhai adrannau o'r gyllideb eleni. Mae'r rhain i'w gweld yn feysydd staff a thrafnidiaeth. Er hyn, mae tanwariant i'w weld ym meysydd eiddo, offer ac incwm.
- Cadarnhawyd y rhagwelir tanwariant o £8,828.00 yn y flwyddyn ariannol hon.

- Pwysleisiwyd nad ydi rhai pethau megis wal y cei a wardeniaid y traeth heb gael eu cysidro o fewn y gyllideb hon gan bod eu cyllideb yn deillio o fannau eraill.
- Ystyriwyd cyfraddau ffioedd am y flwyddyn ariannol nesaf. Nid ydi'r rhain wedi cael eu cyflwyno i'r pwyllgor ar hyn o bryd gan fod chwyddiant yn cynyddu yn dilyn y wasgfa ariannol bresennol. Gobeithir canfod dull o beidio codi ffioedd i ddefnyddwyr yr harbwr gan fuasai'r cynnydd hwn yn effaith mawr ar ddefnyddwyr a chynyddu'r risg o leihau'r nifer o ddefnyddwyr yn y dyfodol.
- Gofynnwyd os bydd yr arian o'r tanwariant hwn yn cael aros yn Aberdyfi, neu ydi o'n debygol iddo fynd i gynorthwyo harbwr arall pe bai'r angen yn codi.
 - Cadarnhawyd mai'r bwriad yw cadw'r arian yn yr ardal ond nid ellir rhoi sicrwydd bod modd gwneud hyn.

Adroddiad yr Harbwr Feistr yn crynhoi'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth a Hydref 2022, gan gynnwys materion cynnal a chadw.

- Cadarnhawyd bod trefniant wedi ei gyrraedd gyda'r cychod pysgota er mwyn iddyn nhw parhau i ddefnyddio'r harbwr dros y gaeaf.
- Rhannwyd pryderon am y lanfa yn Aberdyfi gan fod cerbydau wedi bod yn dreifio arno. Mae asesiadau risg cychwynnol yn dangos bod hwn o risg uchel iawn a thrafodwyd y posibilrwydd o osod polion i atal cerbydau rhag dreifio arno.
- Ystyriwyd y cawellu sydd ar y cei a phenderfynwyd bod angen symud rhai ohonynt i ffwrdd o safle er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr.
- Rhoddwyd diweddariad ar bont newydd i Fryn Llestair, gan nodi fod y gwaith adnewyddu bron wedi ei gwblhau, a bydd y ffordd yn cau dros nos yn fuan er mwyn ei osod yn iawn cyn i ddefnyddwyr ei groesi.
- Cynhaliwyd sawl digwyddiad dros y cyfnod diwethaf a diolchwyd i bawb am gydweithio mor effeithiol i'w cynnal.
- Holiwyd pa drefniadau sydd mewn lle ar gyfer codi angorfeydd dros y gaeaf yn sgil y gwaith sydd yn cael ei wneud ar yr harbwr ar hyn o bryd.
 - Eglurwyd bod yr harbwr yn disgwyl am gadarnhad gan gontractwr yr angorfeydd i weld pryd fydd yr angorfeydd yn cael eu codi dros y gaeaf er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn addas i bawb.

PENDERFYNWYD

Nodi a derbyn yr adroddiadau.

8. ETHOL SYLWEDYDDION

PENDERFYNWYD

Etholwyd Desmond George yn Sylwedydd ar Bwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau Pwllheli, Abermaw a Porthmadog, ac i David Williams fynychu yn ei le os nad yw'n gallu bod yn bresennol.

9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhawyd bod y cyfarfod nesaf ar y 21ain o Fawrth 2023.

Cymerwyd y cyfle i ddiolch yn fawr i'r Rheolwr Harbyrau am flynyddoedd o waith caled ac am ei ymrwymiad a'i angerdd tuag at harbyrau'r sir. Rhannwyd dymuniadau gorau iddo yn ei ymddeoliad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 12:15

(Cadeirydd)

Eitem 5

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi.
DYDDIAD	21 Mawrth 2023
TEITL	Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr
AWDUR	Uwch Swyddog Harbwr

1. Cyflwyniad

- 1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Aberdyfi.
- 1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y flwyddyn a ddaw i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2023, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

2. Angorfeydd Aberdyfi a Chofrestru Cychod.

- 2.1 Cyn cyfnod y Pasg ac yn unol â'r blynyddoedd diwethaf, mae'r harbwrfeistr a'i gymhorthydd am gynnal arolwg o'r afon i benderfynu ar y lleoliad mwyaf addas ar gyfer gosod angorfeydd yr harbwr.
- 2.2 Bydd gwasanaeth contractio angorfeydd newydd yn cael ei ddarparu eleni dan yr enw Aberdyfi Marine Services. Mae'r gwasanaeth hwn yn ychwanegol i'r gwasanaeth angori sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan gwmni Underwater Maintenance and Inspections Services, sydd wedi bod yn gosod angorfeydd harbwr yn Aberdyfi ers sawl blwyddyn.
- 2.3 Bydd system gofrestru Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol Cyngor Gwynedd yn parhau i gael ei gweinyddu drwy drefniant ar-lein, gan ganiatáu i gwsmeriaid ddewis y lleoliad mwyaf addas i gasglu caniatâd cofrestru a lansio. Yn dilyn llwyddiant y trefniant hwn, hyderir y gallwn yn awr ganiatáu i gwsmeriaid angorfeydd gadarnhau a thalu am eu hangorfa yn yr harbwr drwy system ar-lein gyffelyb.

3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.

- 3.1 Mae Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.
 - 3.1.1 Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o randdeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.
 - 3.1.2 Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, iddo gael ei adolygu'n berthnasol i weithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Aberdyfi.
 - 3.1.3 Mae'n bryd i'r Gwasanaeth adolygu a diweddarau'r Cod Diogelwch Morol eleni i sicrhau safonau diogelwch yn harbwr Gwynedd a bod y rhain yn cael eu cadw. Yn ogystal, disgwylir y bydd archwiliad allanol o'r cod yn cael ei gynnal yn nes ymlaen yn y flwyddyn gan yr unigolyn a ddynodwyd sef, Capten Matthew Forbes, Harbwrfeistr Conwy.

4. **Materion Staffio.**

- 4.1 Mae staff yr harbwr wedi parhau i weithio o swyddfa'r harbwr drwy gydol cyfnod y gaeaf i sicrhau diogelwch yr harbwr tra bod gwaith wedi mynd rhagddo i adnewyddu ochr y cei.
- 4.2 Mae'r Harbwrfeistr a'i gymhorthydd wedi ymgymryd â rhaglen o waith cynnal a chadw dros y gaeaf yn yr harbwr, yn ychwanegol i ddarparu cymorth o ran y gwaith sydd ei angen yn Harbwys Porthmadog ac Abermaw. Bydd rhagor o waith yn cael ei ymgymryd yn benodol mewn perthynas ag angorfeydd yr harbwr a'r marciau mordwyo cyn dechrau cyfnod prysur yr haf.

5. **Materion Ariannol.**

- 5.1 Trafodir crynodeb bras o gyllidebau'r harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol yn y cyfarfod gan y Prif Swyddog Morwrol newydd.
- 5.2 Yn ystod y cyfnod hwn, bu'n rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr isod;
- Cynnal a chadw cymhorthion mordwyo a goleufeydd
 - Cynnal a chadw a gweithredu cychod patrôl yr Harbwr
 - Cynnal a chadw'r tiroedd a'r celfi stryd
 - Prynu a chynnal a chadw offer a chyfarpar gan gynnwys offer diogelwch
- 5.3 **Ffioedd a Thaliadau. 2023/24.** Mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn aros am gadarnhad o ran y ffioedd a'r taliadau drafft i Harbwr Aberdyfi, ynghyd â ffioedd lansio Cychod Pŵer a Badau dŵr personol am dymor 2023/24. Yr arwyddion presennol yw bydd ffioedd a thaliadau angorfeydd yn gyffredinol yn codi o 8.5%.

6. **Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Mae Harbwrfeistr Aberdyfi wedi darparu crynodeb byr o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng Hydref 2022 a Mawrth 2023, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad wedi'i atodi.

DG55 - HARBWR ABERDYFI		01/04/2022 hyd at 31/03/2023			
GRWP	CYFRIF	DISGRIFIAD	CYLLIDEB	GWARIANT A RHAGWELIR HYD AT 31/03/2023	GOR (TAN)
Staff	AGWE	Costau Staff	66,400	66,967	567
Eiddo	BEID	Tiroedd ac Eiddo	21,180	17,647	(3,534)
Trafnidiaeth	CTRA	Cwch a Cherbydau	690	3,645	2,955
Offer a Chelfi	DCYF	Offer a Chelfi	7,520	4,010	(3,510)
Incwm	INCM	Incwm Harbwr	(29,500)	(39,751)	(10,251)
Cyfanswm	CYF	Cyfanswm	66,290	52,517	(13,773)

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi
DYDDIAD	21 Mawrth 2023
TEITL	Adroddiad yr Harbwrfeistr
AWDUR	W.A.Stockford Harbwrfeistr Aberdyfi

H1 **Materion Mordwyo**

- 1.1 Mae staff yr harbwr wedi parhau i fonitro cwrs y sianel fordwyo dros gyfnod y gaeaf. Mae natur ddeinamig yr afon yn parhau i newid agweddau ffisegol ardal yr harbwr, ac felly hefyd, y lleoliadau angori posib.
- 1.1.1 Ar adeg ysgrifennu hwn, mae ardal fawr i'r dwyrain o storfa fâtis Tŷ'r Drindod yn sychu ar lanw mawr dŵr isel. Bydd staff yr harbwr yn cynnal archwiliadau ac arolygon pellach ar y sianel i gyd-fynd â'r llanwau astronomegol isel yn ystod mis Mawrth.
- 1.2 Ar hyn o bryd, mae un Hysbysiad Lleol i Forwyr mewn grym yn Harbwr Aberdyfi.
- 1.2.1 Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 01/23 Harbwr Aberdyfi
- Ar hyn o bryd, nid yw Cymhorthydd Mordwyo Starbord Rhif 5 Fl.G.4s. ar safle 52° 32.198'N 004° 04.053'W yn ei le. Mae'n hanfodol bod Morwyr yn mordwyo'n ofalus yn yr ardal hon.
- 1.2.2 Mae'r gwaith i adnewyddu Cymhorthydd Mordwyo 5 wedi cael ei gwblhau a gobeithir y bydd y bwi yn cael ei ddefnyddio cyn gynted â phosib, yn ddibynnol ar gael contractwr angorfeydd, yn ogystal â thywydd ac amodau llanwol ffafriol.
- 1.3 Ymwelodd archwiliwr o Dŷ'r Drindod â'r Gwasanaeth ar 24 Ionawr 2023 i gynnal archwiliad o gofnodion o argaeledd y cymhorthion mordwyo lleol, o dan reolaeth Cyngor Gwynedd. Yn dilyn yr archwiliad, derbyniwyd adroddiad oedd yn nodi bod popeth mewn trefn ac nid oedd unrhyw faterion yn codi oedd angen sylw pellach.
- 1.4 Dymuna'r Gwasanaeth bwysleisio pwysigrwydd cysylltu â swyddfa'r harbwrfeistr yn Aberdyfi i gael gwybodaeth gyfredol am ddiogelwch mordwyo.

H2 **Materion Gweithredol**

- 2.1 Mae cyfarfodydd misol ynghylch Prosiect Datblygu Cei Aberdyfi (AWDP) yn parhau i gael eu cynnal, wedi'u cadeirio gan staff adran Ymgynghoriaeth Cyngor Gwynedd. Mae'r cyfarfodydd yn rhoi diweddariad ar gynnydd y cynllun, yn ogystal â chyfle i ran-ddeiliaid lleol godi unrhyw bryderon sydd ganddynt wrth i'r prosiect fwrw ymlaen.
- 2.1.1 Mae staff yr harbwr yn parhau i weithio gyda'r holl ran-ddeiliaid lleol, adran Ymgynghoriaeth Cyngor Gwynedd a'r contractwr ar y safle, i sicrhau bod arferion gwaith diogel yn parhau yn yr harbwr wrth i'r gwaith gael ei gynnal.
- 2.2 Mae cyflwr strwythurol adeilad swyddfa'r harbwrfeistr yn parhau i beri pryder, gyda symudiad diweddar yn strwythur yr adeilad o bosib yn gysylltiedig â rhaglen ddatblygu'r cei. Mae adran Eiddo'r Cyngor yn ymwybodol o'r mater ac wedi cynnal archwiliad diweddar o'r adeilad.

H3 **Cynnal a chadw**

- 3.1 Mae gwaith cynnal a chadw cyn y tymor wedi cael ei gynnal ar gwch patrôl Powercat yr harbwr a bydd hynny'n parhau i paratoya y tymor a ddaw. Mae'r injans wedi cael eu trin yn ddiweddar ac mae'r cwch wedi derbyn gwiriadau archwilio adeiladwaith,

sefydlogrwydd ac offer o ran cydymffurfio â gofynion gweithredu cychod yr Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau.

- 3.2 Yn dilyn cwblhau'r prosiect i adnewyddu'r bont droed dros Reilffordd Arfordir y Cambrian, mae staff yr harbwr wedi bod yn cynnal a chadw'r ffensio ar yr ynys i helpu pobl sy'n cerdded at y blaendraeth.
- 3.3 Mae'r Gwasanaeth wedi cymeradwyo adnewyddu'r giatiau yn adwy gerddi Penhelig, ac mae contractwr lleol wedi'i benodi i gynnal y gwaith a gosod y giatiau newydd. Gobeithir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau cyn cyfnod y Pasg. Mae tair mainc newydd wedi'u prynu hefyd i'w gosod yn y gerddi.
- 3.4 Hoffai staff yr harbwr gymryd y cyfle i ddiolch i Outward Bound Trust, Aberdyfi am eu cymorth parhaus gyda materion cynnal a chadw ar y lan ac ar y dŵr y gaeaf hwn.

H4 **Materion Eraill**

- 4.1 Mae ail gynhwysydd storio gyda chlo arno wedi'i brynu a'i osod gyferbyn â'r un presennol yng nghyfleuster storio'r harbwr. Bydd y cynhwysydd storio newydd yn gymorth wrth hwyluso storio offer traeth ar gyfer traethau Aberdyfi a Thywyn, yn cynnwys y caban symudol a ddefnyddir gan staff traeth Tywyn yn ystod yr haf.
- 4.2 Mae cynnydd yn lefel y tywod ar y traeth wedi llesteirio defnydd ffisegol y llithrfa sydd gyferbyn ag eiddo Clwb Hwyllo Dyfi. Gyda lefel y prif draeth fel y mae ar hyn o bryd, mae angen trafodaethau pellach gyda budd-ddeiliaid lleol i sefydlu beth ellir ei gyflawni i geisio lleddfu'r broblem.
- 4.3 Mae carcasau ar y blaendraeth wedi arwain at sawl diwrnod o waith ymatebol gan y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn gofyn pe baech yn gweld unrhyw beth i chi roi gwybod i'r gwasanaeth cyn gynted â phosib. Hoffai'r Gwasanaeth hefyd atgoffa'r cyhoedd er bod angen ymateb yn sydyn weithiau, nid yw hyn bob amser yn bosib oherwydd staffio ac ymrwymadau gwaith eraill.

H5 **Digwyddiadau**

- 5.1 Mae Clwb Hwyllo Dyfi wedi derbyn caniatâd ar gyfer eu rhaglen hwyllo a hyfforddi a gyflwynwyd i swyddfa'r harbwr yn gynnar ym mis Chwefror.
- 5.2 Dymuna'r Gwasanaeth atgoffa trefnwyr digwyddiadau o'r angen i gael caniatâd gan y Gwasanaeth er mwyn cydymffurfio ag is-ddeddfau'r harbwr, cyn hysbysebu neu drefnu unrhyw ddigwyddiadau arfaethedig yn ardal awdurdod yr harbwr.

